

Atebion a mwy

Mae'r darn yn cyfeirio at ddaeargryn yn ardal Amatrice, yr Eidal, ym mis Awst – er y gallai gyfeirio at ddaeargrynfeydd eraill yn yr ardal yn ystod 2016 hefyd, gan fod llawer o ddaeargrynfeydd wedi digwydd yn yr ardal eleni.

Yn ystod y daeargryn hwn, cafodd dros ddau gant o bobl eu lladd, cafodd cannoedd eu hanafu a chafodd bron pob adeilad yn y dref ei ddifrodi.

Roedd y daeargryn yn mesur 6.2. ar Raddfa Maintioli Moment.

Ond beth sy'n achosi daeargryn?

Mae daeargryn yn digwydd pan fydd dau o blatiau tectonig y Ddaear yn symud.

Mae'r Ddaear wedi cael ei rhannu'n nifer o 'blatiau' neu ddarnau mawr o ddaear – maen nhw fel jig-so mawr – ac weithiau mae'r rhain yn symud. Y canlyniad yw bod y ddaear yn symud, neu'n crynu, neu mae llosgfynydd yn ffrwydro, gan achosi difrod mawr a llawer o farwolaethau weithiau.

Mae daeargrynfeydd yn digwydd yn aml iawn yn y byd ond fel arfer maen nhw'n rhai gwan. Dim ond rhai daeargrynfeydd sy'n achosi difrod – y rhai cryf, fel yn yr Eidal yn 2016.

Am fwy o wybodaeth ewch i ...

<http://www.geographyinthenews.org.uk/cy/issues/issue-35/>

Gwneud cyflwyniad

Chwiliwch am wybodaeth am ddaeargrynfeydd a gwnewch gyflwyniad i egluro beth yw daeargrynfeydd.

Dylech chi ganolbwyntio ar:

- beth yw daeargryn
- pam mae daeargrynfeydd yn digwydd
- ble maen nhw'n digwydd fel arfer
- sut maen nhw'n cael eu mesur heddiw
- beth yw canlyniadau daeargrynfeydd.

Wrth baratoi'r cyflwyniad, canolbwyntiwch ar:

- y pwyntiau byddwch chi'n eu cynnwys ar y sleidiau – dim gormod oherwydd mae'n bwysig bod maint y print yn ddigon mawr i'r gynulleidfa fedru ei ddarllen
- y lluniau byddwch chi'n eu cynnwys ar y sleidiau
- y wybodaeth arall byddwch chi'n ei rhoi ar lafar.

Ar ôl gorffen, rhowch y cyflwyniad i'r grŵp.